Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Tredegar Arms Hotel Ltd



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Adfer a sefydlu The Tredegar Arms yn llawn fel busnes cynaliadwy sy'n cynnwys llety moethus, bwyty o safon ynghyd â chyfleuster digwyddiadau.

**Sut cafodd y nodau hyn eu cyflawni?**

Drwy fod yn drefnus a gweithio gyda chontractwr adeiladu proffesiynol a oedd yn cadw llygad ar bob un manylyn.

**Pwy oedd yn cymryd rhan?**

Lauren Williams a Grace Williams (Perchnogion), Steve Williams a Robert Williams (Cyfarwyddwyr y cwmni masnachu) ac Able Touch Joinery Ltd (y Prif gontractwr).

**Sut cafodd y prosiect ei ariannu?**

Cyflawnwyd y prosiect gydag arian gan y Gronfa Busnesau Micro a Bychan ynghyd â buddsoddiad preifat.

**Ble aethoch chi am help a chyngor?**

Awdurdod Lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent) – Alyson Tippings.

**Beth yw'r cyflawniad mwyaf hyd yn hyn?**

Roedd y prosiect cyfan yn gyflawniad gwych a chan ein bod bellach yn masnachu'n llawn rydyn ni'n cael adborth ardderchog gan y cyhoedd sy'n ddiolchgar o gael lleoliad mor hyfryd yn Nhredegar.

**A'r her fwyaf?**

Trefnu'r holl gyllid, o grantiau i fuddsoddiadau preifat ynghyd â sicrhau bod amseru popeth yn gywir.

**Unrhyw awgrymiadau am y rhai hynny sy'n llunio prosiect tebyg?**

Byddwch yn gadarnhaol ac yn drefnus.

**Beth nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Adeiladu ardal chwarae i blant yng nghefn yr eiddo.

